

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) (Diwygio) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru a chafodd ei osod ger bron Senedd Cymru gyda'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi golwg deg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) (Diwygio) 2022. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol

Julie James
Gweinidog Newid Hinsawdd
8 Tachwedd 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol ("ME") yn ymwneud â Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) (Diwygio) 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cafodd Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022 eu hystyried gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn eu cyfarfod ar 26 Medi 2022 a chyhoeddodd adroddiad yn cynnwys pwyntiau technegol. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â phedwar pwynt a wnaed gan y Pwyllgor. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei gyhoeddi'n rhad ac am ddim i'r holl dderbynwyr hysbys.

3. Cefndir Deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi gwneud y rheoliadau hyn wedi eu cynnwys yn adrannau 236(3) a 256(1) a (2) paragraff 15(2) o Atodlen 12 o Ddeddf 2016.

Mae'r OS hwn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwallau technegol a theipograffigol yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Pennu Rhent) (Contractau wedi eu Trosi) (Cymru) 2022 ac maent yn angenrheidiol er mwyn darparu eglurder a sicrhau cysondeb yn y gyfraith.

5. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal gan fod y rheoliadau hyn yn gwneud gwelliannau technegol yn unig.

6. Asesiad o'r Effaith Rheoleiddio

Mae angen y newidiadau technegol a wneir gan y rheoliadau hyn i newid geiriad y gyfraith yn hytrach na newid ei diben neu ei heffaith. O'r herwydd, ni chynhaliwyd RIA i gyd-fynd â'r rheoliadau hyn. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng Nghod RIA Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.